PWYLLGOR RHEOLI NEUADD GOFFA Y FELINHELI

AMODAU LLOGI A RHEOLAU Y NEUADD

1. Trefniadau Llogi

(i) Mae gan Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Y Felinheli ('y Pwyllgor Rheoli') yr hawl di-lyffethair i wrthod llogi y Neuadd Goffa ('y Neuadd') i unrhyw berson neu gorff.

(ii) Ni chaniateir llogi y neuadd gan unrhyw berson dan 21 oed.

(iii)Ni chaniateir llogi y Neuadd ar gyfer partion i bobl o 13eg i 21ain oed heb ganiatad arbennig gan y Pwyllgor Rheoli.

(iv)Bydd taliad a blaendaliad yn daladwy yn unol â'r rhestr taliadau.

(v) Rhaid i'r sawl sydd yn llogi y Neuadd gwblhau y ffurflen sydd wedi ei atodi ynghlyn a chyflenwi alcohol.

2. Canslo

(i) Os fydd y llogwr am ganslo hurio y neuadd cyn dyddiad y digwyddiad neu achlysur bydd yn gyfrifol am gost llawn y llogi os na ellir ail-logi y Neuadd i ddefnyddiwr arall yn ei le. Bydd gan y Pwyllgor Rheoli yr hawl i leihau y tal yn ôl ei fympwy.

(ii) Os difrodwyd y Neuadd fel na fydd mewn cyflwr addas neu ddigonol ar gyfer defnydd y llogwr ni fydd y Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am unrhyw golledion i'r llogwr ond fe ad-delir unrhyw swm a dalwyd gan y llogwr i logi y Neuadd neu rhan cyfranol o'r swm os llogwyd y Neuadd am gyfnod o amser ac amharwyd ar ddefnydd y llogwr o'r Neuadd dros rhan o'r cyfnod.

3. Diogelwch

(i) Bydd y llogwr yn gyfrifol am yr holl ddulliau gweithredu ynghlŷn â diogelwch ac argyfyngau tra yn y Neuadd. Yn benodol rhaid i'r llogwr sicrhau fod person cyfrifol yn bresenol bob amser yn ysod y cyfnod hurio sydd yn gyfarwydd â'r larymau tan, yr allanfeydd argyfwng a'r dulliau gweithredu perthnasol mewn argyfwng a bydd y person hwnnw yn gyfrifol am oruchwylio gwacáu yr adeilad mewn argyfwng.

(ii) Rhaid sicrhau bob amser bod yr allanfeydd argyfnwg yn glir ac nad ydynt ar unrhyw adeg wedi eu rhwystro mewn unrhyw ffordd.

4. Gofal o'r eiddo

(i) Os bydd y llogwr yn darganfod unrhyw ddifrod i'r eiddo neu i unrhywbeth yn y Neuadd ar ôl cyrraedd yn y Neuadd rhaid iddo hysbysu y gofalwr neu aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn syth neu fydd y llogwr yn gyfrifol am y difrod.

(ii) Bydd y llogwr yn gyfrifol am oruchwylio y defnydd o'r Neuadd yn ystod y cyfnod hurio ac am oruchwylio yr eiddo a chynnwys y Neuadd er mwyn sicrhau na ddifrodir y Neuadd neu unrhyw ran ohonno neu unrhywbeth ynddo mewn unrhyw ffordd.

(iii) Os digwydd unrhyw ddifrod yn ystod y cyfnod hurio yna rhaid i'r llogwr hysbysu y gofalwr neu aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn syth.

(iv) Ni chaniateir rhoi unrhywbeth yn sownd i'r eiddo hefo piniau, glud neu mewn unrhyw fodd arall.

(v) Bydd y llogwr yn gyfrifol am y gost o unrhyw ddifrod i'r Neuadd neu unrhywbeth yn y Neuadd yn ystod y cyfnod hurio.

(vi) Rhaid sicrhau bod y Neuadd a'r tir o gwmpas y Neuadd mewn cyflwr glân a thaclus a diogel yn dilyn y cyfnod hurio a bod popeth yn y Neuadd wedi ei ddychwelyd i'w le priodol. Os na fyddant yna bydd gan y Pwyllgor Rheoli yr hawl i godi tal ychwanegol.

5. Defnydd o'r Neuadd

(i) Ni chaniateir i unrhyw ddigwyddiad yn y Neuadd barhau tu hwnt i ganol nos.

(ii) Mae cyfyngiad o 300 ar y nifer o bobl all fynychu unrhyw ddigwyddiad yn y Neuadd.

(iii) Bydd y llogwr yn gyfrifol am ymddygiad pobl yn y neuadd yn ystod y cyfnod hurio.

(iv) Ni fydd y llogwr yn caniatau unrhyw ddefnydd o, neu weithgaredd yn, y Neuadd sydd yn anghyfreithiol nac yn caniatau unrhywbeth yn y Neuadd a all achosi perygl.

(v) Ni fydd y llogwr yn gwneud unrhywbeth yn y Neuadd sydd yn groes i amodau Trwydded Eiddo y Neuadd. Yn arbennig ni fydd y llogwr yn caniatau gwerthiant, cyflenwad neu ddefnydd o alcohol yn y Neuadd. Os rhoddir caniatad gan y Pwyllgor Rheoli i gyflenwi neu werthu alcohol yn y Neuadd yna bydd y caniatad yn amodol ar lynnu yn llym i unrhyw amodau a chyfyngiadau ynghlwm â'r caniatad.

(vi) Ni chaniateir anifeiliaid yn y Neuadd ag eithrio cŵn tywys, heb ganiatad arbennig y Pwyllgor Rheoli.

(vii) Ni chaniateir arddangos posteri neu hysbysebion y tu fewn neu thu allan i'r Neuadd heb ganiatad y Pwyllgor Rheoli.

(viii) Ni chaniateir cadw unrhyw eitemau yn y Neuadd heb ganiatad y Pwyllgor Rheoli ac os bydd y Pwyllgor Rheoli yn caniatau cadw unrhyw eitem yn y Neuadd y tu allan i'r cyfnod hurio rhaid cadw yr eitemau yn y lle a bennwyd gan y Pwyllgo Rheoli. Gall y Pwyllgor Rheoli fynnu bod unrhywbeth a gedwir yn y Neuadd trwy ganiatad yn cael ei symud gan y llogwr ar unrhyw adeg, naill ai i le arall yn y Neuadd neu allan o'r Neuadd yn gyfangwbl. Ni chaniateir cadw bwyd yn y Neuadd. Cedwir eitemau yn y Neuadd ar risg y llogwr ac ni fydd y Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am unrhyw golledion neu ddifrod i eitemau a gedwir yn y Neuadd.

(ix) Ni chaniateir ysmygu yn y Neuadd nac unrhyw le tu allan i'r Neuadd ar dir y Neuadd.

(x) Ni chaniateir bels gwair neu wellt yn y Neuadd.

(xi) Ni chaniateir tan gwyllt yn y Neuadd. Ni chaniateir tannio tan gwyllt na chynnau tan y tu allan i'r Neuadd ar dir y Neuadd.